# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Zoom**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 2 Chwefror 2021

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/11176

# 320

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn ar ffurf rhithwir, gyda'r Aelodau yn ymuno drwy gyswllt fideo.

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

Atebodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip gwestiynau 1-2 a 4-5 am y 15 munud olaf y sesiwn hon ar faterion yn ymwneud â'i chyfrifoldebau. Tynnwyd cwestiwn 3 yn ôl.

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14.43

## 3 Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Y wybodaeth ddiweddaraf am Frechiadau COVID-19

Dechreuodd yr eitem am 15.03

## 4 Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Diweddariad ar Adolygiad Clinigol Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Dechreuodd yr eitem am 15.50

## 5 Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd: Cynnydd o ran Trethi Datganoledig

Dechreuodd yr eitem am 16.29

**Yn unol â Rheol Sefydlog 12.24, cafodd eitemau 6-8 eu grwpio ar gyfer dadl, ond gyda phleidleisiau ar wahân.**

## 6 Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020

Dechreuodd yr eitem am 17.12

**NDM7573** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Rhagfyr 2020.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 7 Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Bandiau Treth a Chyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2020

Dechreuodd yr eitem am 17.12

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**NDM7572** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Bandiau Treth a Chyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2020 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Rhagfyr 2020.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| 39 | 11 | 3 | 53 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

## 8 Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Swm Penodedig o Rent Perthnasol) (Cymru) (Diwygio) 2021

Dechreuodd yr eitem am 17.12

**NDM7571** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Treth Trafodiadau Tir (Swm Penodedig o Rent Perthnasol) (Cymru) (Diwygio) 2021 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Rhagfyr 2020

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 9 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 3) (Cymru) 2021

Dechreuodd yr eitem am 17.30

**NDM7570** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 3) (Cymru) 2021 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Ionawr 2021.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 10 Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Diwygio) 2021

Dechreuodd yr eitem am 17.35

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**NDM7574** Jeremy Miles (Castell-nedd)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 25.15 yn cymeradwyo fersiwn ddrafft Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Diwygio) 2021.

Gosodwyd y Gorchymyn Drafft (Saesneg yn unig) a'r Memorandwm Esboniadol (Saesneg yn unig) yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Ionawr 2021.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 49 | 0 | 4 | 53 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

## Yn unol â Rheol Sefydlog 12.24, cafodd eitemau 11-12 eu grwpio ar gyfer dadl, ond gyda phleidleisiau ar wahân.

## 11 Dadl: Egwyddorion Cyffredinol Bil Etholiadau Cymru (Coronafeirws)

Dechreuodd yr eitem am 17.43

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**NDM7579** Julie James (Gorllewin Abertawe)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 26.102:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol Bil Etholiadau Cymru (Coronafeirws).

Gosodwyd Bil Etholiadau Cymru (Coronafeirws) a'r Memorandwm Esboniadol gerbron y Senedd ar 27 Ionawr 2021.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 48 | 0 | 5 | 53 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

## 12 Y penderfyniad ariannol ynghylch Bil Etholiadau Cymru (Coronafeirws)

Dechreuodd yr eitem am 17.43

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**NDM7578** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o Fil Etholiadau Cymru (Coronafeirws), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o'r math y cyfeiriwyd ato yn Rheol Sefydlog 26.69, sy'n codi o ganlyniad i'r Bil.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 48 | 0 | 5 | 53 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

## 13 Cyfnod pleidleisio

Yn unol â Rheol Sefydlog 12.18, am 18.24 cafodd y trafodion eu hatal dros dro i ganiatáu egwyl technegol cyn y Cyfnod Pleidleisio.

Dechreuodd yr eitem am 18.28.

Daeth y cyfarfod i ben am 18.31

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mercher, 3 Chwefror 2021**